# Cyllid ac Atebolrwydd y Comisiwn Etholiadol:

# Datganiad Egwyddorion Cyllido

# Mawrth 2021

## Diben a statws y Datganiad hwn

1. O 1 Ebrill 2021 ymlaen, bydd cyllid y Comisiwn Etholiadol (y Comisiwn) yn cael ei fodloni gan Gorff Corfforedig Senedd yr Alban a chynrychiolwyr o Gronfa Gyfunol Cymru, yn ogystal â Senedd y DU, a bydd y Comisiwn yn atebol i Senedd y DU, Senedd yr Alban, a Senedd Cymru. Bydd yr atebolrwydd hwn yn cael ei oruchwylio gan Bwyllgor y Llefarydd ar y Comisiwn Etholiadol, Corff Corfforedig Senedd yr Alban, a Phwyllgor y Llywydd.
2. Mae'r **Datganiad Egwyddorion Cyllido** hwn yn nodi sut bydd cyllid y Comisiwn a rennir yn cael ei gyfrif, a sut bydd y cyllid gofynnol yn cael ei rannu.
3. Ni fwriedir i'r Datganiad hwn fod yn gytundeb cyfreithiol-rwymol, ac nid yw'n gwrthwneud nac yn disodli pwerau perthnasol Senedd y DU, Senedd yr Alban, na Senedd Cymru i bennu eu busnes eu hunain. Fodd bynnag, cydnabyddir bod angen sicrwydd i sicrhau y caiff costau eu rhannu'n deg, ac i alluogi'r Comisiwn i gynllunio a chyfrifyddu mewn modd priodol. Mae'r Datganiad hwn yn nodi ein safbwynt.
4. Mae'r Datganiad hwn wedi ei nodi gan Bwyllgor y Llefarydd ar y Comisiwn Etholiadol, Corff Corfforedig Senedd yr Alban, Pwyllgor y Llywydd, a'r Comisiwn.

### Hyd, adolygu, ac addasu

5. Bydd y Datganiad yn cael ei adolygu ar ôl un flwyddyn o fod wedi bod ar waith, ac ar ôl hynny, bob pum mlynedd. Gellir hefyd ofyn am adolygiad unrhyw bryd.

### Trefniadau pontio ar gyfer Cymru

6. Gan ddibynnu ar ddeddfwriaeth yng Nghymru i ganiatáu cyllido'r Comisiwn yn uniongyrchol gan Gronfa Gyfunol Cymru, bydd Pwyllgor y Llywydd yn gosod y swm y gellir ei weinyddu gan Lywodraeth Cymru.

### Atebolrwydd

7. Mae'r Comisiwn yn atebol i Senedd y DU trwy Bwyllgor y Llefarydd ar y Comisiwn Etholiadol, i Senedd yr Alban trwy Gorff Corfforedig Senedd yr Alban, a Senedd

Cymru trwy Bwyllgor y Llywydd. Mae'r ffyrdd y mae'n cyfrifyddu wedi eu nodi mewn deddfwriaeth berthnasol[1], gan gynnwys:

- Cyflwyno amcangyfrif incwm a gwariant blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol i'w archwilio a'i gymeradwyo gan y corff perthnasol.
- Archwilio'r Cynllun Corfforaethol Pum Mlynedd a'r cynlluniau busnes blynyddol
- Darparu unrhyw wybodaeth ychwanegol, fel y bo'n berthnasol ac yn ôl y gofyn

8. Yn ychwanegol at hyn, bydd craffu polisi ar weithredoedd, cyfrifon a safbwyntiau'r Comisiwn yn parhau, fel y gwnaed ers 2001, trwy amrywiol bwyllgorau perthnasol y tri chorff.

**Archwiliad**

9. Caiff Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol y DU ei benodi'n archwilydd i'r Comisiwn o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau, a Refferenda 2000 (PPERA). Bydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn parhau i ymgymryd â'r gwaith hwn. Bydd Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn yn cael eu gosod gerbron Senedd y DU, Senedd yr Alban, a Senedd Cymru.

## Cyfrif Cyfrannau Cyllido

**Y swm i'w gyllido mewn perthynas â blwyddyn ariannol**

10. Bydd y cyfanswm i'w gyllido yn cael ei gyfrif ar sail croniadau, o amcangyfrif y Comisiwn, wedi ei gymeradwyo gan Bwyllgor y Llefarydd ar y Comisiwn Etholiadol, Corff Corfforedig yr Alban, a Phwyllgor y Llywydd, megis yr hyn a nodir isod (yn seiliedig ar ddiffiniadau Trysorlys Ei Mawrhydi sy'n gymwys at y flwyddyn ariannol berthnasol):

- Y terfyn gwariant adrannol ar gyfer adnoddau (R-DEL), gan gynnwys dibrisiant ac amhariadau o fewn yr hyn a glustnodir ar gyfer dibrisiant gan Drysorlys Ei Mawrhydi;
- incwm llai yn cynnwys:
  - ffioedd a thaliadau
  - incwm gan lywodraethau o dan adran 10 PPERA
  - incwm arall
  - ond nid dirwyon sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol y DU

**Cyfrif cyfrannau cyllido**

[1] Paragraffau 14 ac 15 Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ("PPERA") mewn perthynas â Phwyllgor y Llefarydd ar y Comisiwn Etholiadol; paragraffau 14A ac 15A Atodlen 1 i PPERA mewn perthynas â Chorff Corfforedig Senedd yr Alban; a pharagraffau 16A ac 16B Atodlen 1 PPERA mewn perthynas â Phwyllgor y Llywydd.

11. Y swm i'w gyllido gan Senedd y DU, Corff Corfforedig Senedd yr Alban fel y'i cymeradwyir gan Senedd yr Alban, a chan Gronfa Gyfunol Cymru mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol, fydd y swm (neu swm addasedig) i'w gyllido ar gyfer y flwyddyn ariannol, wedi ei rannu fel y nodir isod.
12. Caiff costau sy'n uniongyrchol briodoladwy i etholiadau, a gweithgareddau eraill y gellir eu hadnabod ar wahân o dan bwerau pob corff, eu cyllido gan y ffynhonnell berthnasol (gan Senedd y DU, Corff Corfforedig Senedd yr Alban, neu Gronfa Gyfunol Cymru).
13. Caiff gwariant nad yw'n uniongyrchol briodoladwy ei rannu. Mae hyn yn cynnwys costau craidd ar gyfer gweithgarwch a rennir, megis canllawiau safonol a'r costau sy'n angenrheidiol ar gyfer gwaith y Comisiwn. Bydd y costau hyn yn cael eu rhannu yn unol â phoblogaeth pob gwlad. Ni fyddant yn cael eu cynnwys mewn costau uniongyrchol.
14. Bydd y Comisiwn yn cynnwys costau Grantiau Datblygu Polisi a gwariant na phleidleisiwyd arno (Ffioedd Comisiynwyr) yn yr Amcangyfrif mae'n ei gyflwyno i Bwyllgor y Llefarydd ar y Comisiwn Etholiadol.

## Addasu'r swm i'w gyllido

15. Bydd y Comisiwn yn gwneud pob ymdrech resymol i gadw ei wariant o fewn y gyllideb y cytunir arni fel y'i ceir yn ei amcangyfrif. Lle bo newidiadau i amgylchiadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn addasu'r swm cyllido a geisir ar gyfer y flwyddyn berthnasol, caiff y swm addasedig ei gyfrif fel y nodir ym mharagraffau 12 - 14 uchod.
16. Lle bo angen addasu costau uniongyrchol (fel y nodir ym mharagraff 15), bydd y Comisiwn yn gofyn am newid i'r cyllid gan y corff neu gyrff perthnasol yn unig. Lle bo angen addasu costau eraill, bydd y Comisiwn yn gofyn am newid i'r cyllid gan y tri chorff.
17. Lle bo angen, caiff ceisiadau gofynnol i amrywio cyllid eu gwneud yn unol â'r gweithdrefnau ar gyfer Amcangyfrifon Atodol yn Senedd y DU, Cyllidebau Wrth Gefn yn Senedd yr Alban, a Chyllideb Atodol yn Senedd Cymru.

## Gosod cyfansymiau rheolaethau cyllidebol

18. Bydd cyfansymiau rheolaethau cyllidebol sy'n ofynnol gan Ganllawiau Cyllidebu Cyfunol Trysorlys Ei Mawrhydi a'i Lawlyfr Amcangyfrifon, fel y bônt yn gymwys i'r Comisiwn, yn parhau i gael eu gosod trwy'r broses Amcangyfrifon, y mae gan Bwyllgor y Llefarydd ar y Comisiwn Etholiadol rôl ynddi, gan drin cyllid gan Gorff Corfforedig Senedd yr Alban a Chronfa Gyfunol Cymru fel incwm at y diben hwn.

## Cyllid arian parod a balansau arian parod

19. Y cyfanswm cyllid arian parod gan Gorff Corfforedig Senedd yr Alban a Chronfa Gyfunol Cymru fydd y swm a gyfrifir yn unol â pharagraff 11, wedi ei addasu, lle bo angen, fel y nodir yn y Datganiad hwn.
20. Y cyfanswm cyllid arian parod gan Gronfa Gyfunol y DU fydd y Gofyniad Net am Arian Parod a nodir yn yr Amcangyfrif Cyflenwi Atodol, wedi ei gymeradwyo gan Bwyllgor y Llefarydd ar y Comisiwn Etholiadol.